

Ysbrydolrwydd Undod

Gair Bywyd - Gorffennaf 2019

I wrthweithio ein greddf i gasglu, mae Iesu'n galw am haelioni; er mwyn goresgyn ein tuedd i boeni am ein hanghenion ein hunain. Mae'n symud y pwyslais at ein cymdogion, ac yn lle diwylliant o dderbyn, mae'n cyflwyno diwylliant o roi.

Gan eich bod wedi derbyn y cwbl am ddim, rhwch yn rhad ac am ddim (Mathew 10:8)

Yn Efengyl Mathew, mae Iesu'n adrodd y geiriau pwerus hyn i'w ddilynwyr, y bobl mae'n eu "hanfon allan".

Roedd wedi dod ar draws dynoliaeth oedd ar goll ac yn dioddef, ac wedi teimlo trugaredd drostyn nhw.

Dyna pam, drwy'r apostolion, roedd yn awyddus i ehangu ei waith o ran iachawdwriaeth, iachau a rhyddhau. Roedden nhw wedi ymgasglu o'i gwmpas, wedi clywed ei eiriau a derbyn cenhadaeth a phwrpas i'w bywydau. Yna aethon nhw allan ar y llwybr hwn: i dystio i gariad Duw i bob unigolyn.

Gan eich bod wedi derbyn y cwbl am ddim, rhwch yn rhad ac am ddim

Ond beth oedden nhw wedi'i dderbyn "am ddim" oedd yn golygu y dylen nhw roi am ddim?

Drwy eiriau a gweithredoedd Iesu, drwy'r dewisiadau a wnaeth a'i fywyd cyfan, profodd yr apostolion drugaredd Duw. Er gwaethaf eu gwendidau a'u cyfyngiadau, derbynion nhw gyfraith newydd cariad, a derbyn ei gilydd.

Yn bennaf oll, derbynion nhw'r rhodd mae Duw yn awyddus i'w rhoi i'r holl bobl: ei gwmni ef ei hun ar lwybr bywyd; a'u oleuni i'w helpu i wneud eu dewisiadau. Mae'r rhoddion amhrisiadwy hyn, sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'n gallu i ad-dalu, yn cael eu rhoi am ddim.

Rhoddwyd y rhoddion hyn i'r apostolion, ond maen nhw'n cael eu rhoi hefyd i bob Cristion, er mwyn iddyn nhw ddod yn sianeli ar gyfer yr un rhoddion i'r bobl maen nhw'n eu cyfarfod bob dydd.

Gan eich bod wedi derbyn y cwbl am ddim, rhwch yn rhad ac am ddim

Yn Gair Bywyd mis Hydref 2006 ysgrifennodd Chiara Lubich:

'Drwy'r Efengyl gyfan, mae Iesu'n gwahodd ei ddisgyblion i roi: rhoi "i'r bobl dlawd" (Marc 10:21). "Rho i bwy bynnag sy'n gofyn i ti am rywbeth, a'r sawl sydd eisiau benthyg rhywbeth gen ti" (Mathew 5:42). "Ac os ydy rhywun am ... gymryd dy grys, rho dy gôt iddo hefyd" (Mathew 5:40); rhoi heb daliad. Iesu oedd y cyntaf i roi, gan adfer iechyd i bobl sâl, maddau i bechaduriaid a rhoi ei fywyd drosom ni i gyd.

I wrthweithio ein greddf i gasglu, mae Iesu'n galw am haelioni; er mwyn goresgyn ein tuedd i boeni am ein hanghenion ein hunain. Mae'n symud y pwyslais at ein cymdogion, ac yn lle

diwylliant o dderbyn, mae'n cyflwyno diwylliant o roi.

Gall gair bywyd y mis hwn ein helpu i ailddarganfod gwerth popeth rydym ni'n ei wneud. Gallai hyn gynnwys gwaith tŷ, gwaith mewn ffatri neu ffermio. Gallai fod yn weinyddu swyddfa neu waith cartref yr ysgol, neu gallai gynnwys dyletswyddau dinesig, gwleidyddol a chrefyddol. Mae'n bosibl trawsnewid popeth yn wasanaeth sylwgar a meddylgar i eraill. Bydd cariad yn ein helpu ni i weld beth sydd ei angen ar bobl eraill, a bydd cariad yn dangos i ni sut i ymateb yn greadigol ac yn hael.

Beth fydd y canlyniad? Bydd rhoddion yn cylchredeg oherwydd bod cariad yn cynhyrchu mwy o gariad. Bydd llawenydd yn tyfu oherwydd bod "rhoi yn llawer gwell na derbyn" (Actau 20:35).

Dyma'n union beth a ddigwyddodd i Vergence, merch fach o'r Congo. Dywedodd hi "Ar fy ffordd i'r ysgol, roeddwn i'n llwglyd iawn. Yna gwelais i fy ewythr ac fe roddodd e arian i fi brynu brechdan, ond ychydig yn ddiweddarach gwelais i ŵr tlawd iawn. Ar unwaith meddyliais i am roi'r arian iddo. Dywedodd fy ffrind oedd gyda fi am beidio â gwneud hynny ac y dylwn i feddlw amdanaf i fy hun. Ond dwedais i wrthyf i fy hun: fe wnaf i ddod o hyd i fwyd fory, ond fydd e'n gallu? Felly rhoddais fy arian brechdan iddo a theimlo'n llawen iawn yn fy nghalon."

Gan eich bod wedi derbyn y cwbl am ddim, rhowch yn rhad ac am ddim

Rhesymeg Iesu a'r Efengyl yw ein bod ni bob amser yn derbyn er mwyn rhannu a byth yn cadw popeth i ni ein hunain. Mae hefyd yn wahoddiad i bob un ohonon ni weld beth rydyn ni wedi'i dderbyn: egni, talentau, sgiliau a phethau materol, a'u cyflwyno i wasanaeth pobl eraill.

Yn ôl yr economegydd Luigino Bruni, "Mae rhadlondeb, sy'n golygu 'rhad ac am ddim', yn agwedd sy'n gallu cyd-fynd ag unrhyw weithred. Does dim rhaid i rywbeth fod 'am ddim'; i'r gwrthwyneb. Oherwydd dyw rhadlondeb ddim yn golygu bod rhywbeth yn costio dim byd ond ei fod yn cynrychioli cost anfeidraidd, a'r unig ffordd y gallwn ni ymateb yw drwy wneud yr un peth ein hunain."

Felly, mae rhoi yn rhydd yn trechu rhesymeg y farchnad, diwylliant prynu ac unigolyddiaeth gan ein hagor ni i rannu, cyswllt cymdeithasol ac ymdeimlad o deulu a'r diwylliant newydd o roi.

Mae ein profiad yn cadarnhau bod cariad anhunanol yn her wirioneddol, ond un sydd â chanlyniadau cadarnhaol ac annisgwyl sy'n lledaenu drwy'r gymdeithas.

Dyma beth ddigwyddodd yn y Ffilipinau, drwy brosiect a ddechreuodd yn 1983.

Ar y pryd, roedd sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol y wlad yn anodd iawn ac roedd llawer o bobl wedi ymrwmo i ddod o hyd i ddatrysiadau cadarnhaol. Penderfynodd grŵp o bobl ifanc wneud eu cyfraniad nhw mewn ffordd wahanol: agoron nhw eu cypyrddau a thynnu popeth nad oedd ei angen arnyn nhw bellach. Gwerthon nhw'r cyfan mewn ffair sborion a gyda'r cyfalaf bach a godwyd, agoron nhw ganolfan gymdeithasol o'r enw Bukas Palad, sy'n golygu "gyda dwylo agored" yn yr iaith leol. Y frawddeg yn yr Efengyl a'u hysbrydolodd nhw oedd: "Gan eich bod wedi derbyn y cwbl am ddim, rhowch yn rhad ac am ddim" (Mathew 10:8), a dyma oedd arwyddair y prosiect o hynny ymlaen.

Ymunodd rhai meddygon gyda nhw gan gynnig eu gwasanaethau proffesiynol heb ofyn am ddim yn ôl, ac agorodd llawer o bobl eraill eu calonnau, eu dwylo neu ddrysau eu cartrefi.

Dyna sut y datblygodd gweithredu cymdeithasol eang i helpu'r bobl dlotaf. Mae'n dal i gynnig amrywiol fathau o wasanaeth mewn nifer o ddinasoedd yn y Ffilipinau heddiw. Fodd bynnag, y nod pwysicaf sydd wedi ei gyrraedd a'i gadarnhau dros y blynyddoedd yw galluogi'r rheini sy'n derbyn cymorth i ddod yn bobl sy'n eu rhyddhau eu hunain o fod yn gaeth i dlodi.

Yn wir maen nhw'n ailddarganfod eu hurddas fel pobl ac felly yn adeiladu perthynas o barch a chydsefyll. Mae eu hesiampl a'u hymrwymiad yn helpu llawer o bobl eraill i ddianc rhag tlodi a chymryd cyfrifoldeb am ffordd newydd o fyw iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd, eu cymdogaeth a'u cymunedau, a'r byd.

Letizia Magri